Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Ymgysylltiad estynedig

## Gwybodaeth i deuluoedd

Gorffennaf 2026

# Cynnwys

Cynnwys ....................................................................................................... 2
Beth yw ymgysylltiad estynedig? ................................................................. 3
Beth mae hyn yn ei olygu i fi? ...................................................................... 3
Dechrau'r ymchwiliad ................................................................................... 4
Yn ystod yr ymchwiliad ................................................................................. 4
Diwedd yr ymchwiliad ................................................................................... 5
Atgyfeiriadau at Wasanaeth Erlyn y Goron ................................................... 6

# Beth yw ymgysylltiad estynedig?

Mae IOPC o dan rwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth ym mhob ymchwiliad annibynnol a chyfeiriedig o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* . Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i achwynwyr a phobl â diddordeb am:

- gynnydd yr ymchwiliad
- unrhyw ganfyddiadau dros dro o'r ymchwiliad
- a oes adroddiad ymchwiliad wedi'i gyflwyno
- y camau gweithredu (os o gwbl) a gymerir mewn perthynas â'r materion sy'n cael eu trin mewn unrhyw adroddiad o'r fath
- canlyniad unrhyw gamau o'r fath

Mae ein Canllawiau Statudol hefyd yn nodi mai sicrhau bod yr adroddiad ymchwiliad terfynol ar gael i'r achwynydd neu'r person â diddordeb yw'r ffordd fwyaf tryloyw o ddangos yr hyn y mae'r ymchwiliad wedi'i ganfod.

Fodd bynnag, yn yr ymchwiliadau mwyaf difrifol, fel y rhai sy'n ymwneud â marwolaeth neu anaf difrifol iawn, rydym yn rhoi'r opsiwn i deuluoedd (neu eu cynrychiolwyr) weld neu dderbyn mwy o wybodaeth nag sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae hyn er mwyn caniatáu i'r teulu gymryd rhan yn effeithiol mewn ymchwiliad ac yn yr achosion hyn, bydd ymgysylltiad estynedig yn berthnasol. Os ydych chi'n derbyn y daflen wybodaeth hon, penderfynwyd y bydd yr ymchwiliad rydych chi'n rhan ohono yn dod o dan ymgysylltiad estynedig a bod gennych chi hawl iddo.

# Beth mae hyn yn ei olygu i fi?

Unwaith y gwneir penderfyniad bod ymgysylltiad estynedig yn berthnasol, byddwch yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ymgysylltiad estynedig tan ddiwedd yr ymchwiliad. Bydd sut olwg sydd ar hyn i chi yn dibynnu ar lefel y cyfranogiad rydych chi eisiau, a byddwn yn trafod hyn gyda chi ar ddechrau'r ymchwiliad . Nid oes rhaid i chi gymryd rhan mewn ymgysylltiad estynedig, a gallwch newid eich meddwl am eich lefel o ymgysylltiad ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad.

Rydyn ni eisiau egluro i chi beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol, a beth allwch chi ei ddisgwyl.

Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth byddwch yn derbyn yn cael ei roi ar ffurf diweddariad bob 28 diwrnod. Fodd bynnag, mewn ymchwiliadau ymgysylltiad estynedig, efallai bydd gennym dystiolaeth i'w rhannu gyda chi ar wahanol gamau o'r ymchwiliad. Byddwn yn trafod hyn gyda chi ar ddechrau'r ymchwiliad a chytuno â chi sut a phryd bydd y wybodaeth yn cael ei rannu.

Mae ymgysylltiad estynedig yn rhoi cyfle i ymgysylltu'n agosach yn yr ymchwiliad. Fodd bynnag, rydym am ei wneud yn glir bod **IOPC yn annibynnol ac yn y pen draw yn cadw cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau yn yr ymchwiliad**, gan

gynnwys penderfyniadau ar y canlyniadau i'r swyddogion dan sylw, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau statudol.

## Dechrau'r ymchwiliad

Byddwch yn cael y cyfle i roi adborth ar y cylch gorchwyl. Mae cylch gorchwyl ymchwiliad yn nodi cwmpas yr ymchwiliad, gan nodi'n glir beth bydd yr ymchwiliad yn edrych arno. Byddwn yn rhannu ein cylch gorchwyl gyda chi ac yn rhoi esboniad i chi pam mae ardaloedd wedi'u cynnwys, neu beidio. Wedyn, byddwn yn rhoi cyfle i chi roi adborth. Byddwn yn ystyried eich adborth ac yn rhoi esboniad manwl i chi o'r penderfyniadau a wnaed cyn gynted â phosib.

## Yn ystod yr ymchwiliad

Yn ystod yr ymchwiliad, byddwn yn rhoi esboniad i chi o benderfyniadau ymchwiliol allweddol, gan gynnwys pam rydym wedi gwneud penderfyniadau, beth mae'r penderfyniadau'n golygu, pam y gwnaethom benderfynu cynnal llinellau ymholi penodol a, lle'n berthnasol, pam nad ydym yn cynnal llinellau ymholi. Byddwn yn gwrando ar eich adborth ac yn ystyried unrhyw awgrymiadau a wnewch, er y bydd penderfyniadau ymchwilio terfynol a phenderfyniadau ar linellau ymholi i'w dilyn yn nwylo'r prif ymchwilydd, sy'n arwain yr ymchwiliad, a'r gwneuthurwr penderfyniadau, a fydd yn gwneud y penderfyniadau ar ddiwedd yr ymchwiliad.

Byddwn hefyd yn egluro unrhyw gyfreithiau, polisïau neu weithdrefnau perthnasol y mae'n rhaid i ni eu gweithredu a beth mae hyn yn ei olygu, mewn ffordd y gallwch ei ddeall.

Byddwn yn dweud wrthych am y dystiolaeth rydym wedi casglu, a'r hyn mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am amgylchiadau'r mater sy'n cael ei ymchwilio. Byddwn hefyd yn rhoi'r cyfle i chi weld neu dderbyn rhai o'r dogfennau allweddol a gynhyrchwyd yn ystod yr ymchwiliad yn llawn, yn amodol ar y 'prawf niwed'.

Mae'r 'prawf niwed' yn golygu ein bod yn edrych ar a allai rhannu'r dogfennau achosi niwed i'r ymchwiliad neu effeithio ar unrhyw un sy'n gysylltiedig, fel tystion neu swyddogion heddlu. Gallai hyn olygu, er enghraifft, peidio â rhannu gwybodaeth a allai effeithio ar unrhyw ymchwiliad troseddol, neu wybodaeth sy'n cynnwys manylion gweithrediadau plismona sensitif. Os na allwn rannu rhai neu'r holl ddogfennau, byddwn yn dweud wrthych beth allwn, a beth na allwn, ei rannu ac yn egluro pam. Ar rai achlysuron, efallai bydd modd tynnu geiriau neu ymadroddion penodol allan er mwyn rhannu dogfennau gyda chi. Gelwir y broses o ddileu geiriau neu ymadroddion penodol yn olygiad. Os gwnawn hyn, byddwn yn egluro hyn i chi ar yr adeg byddwn yn rhannu'r deunydd gyda chi.

Nid yw'n bosib rhoi rhestr bendant i chi o'r dogfennau a fydd yn cael eu rhannu'n llawn neu'n gryno. Bydd hyn yn dibynnu ar yr hyn a gynhyrchir yn ystod yr ymchwiliad a gallai fod yn wahanol ym mhob ymchwiliad. Fodd bynnag, yn ogystal â

dogfennau ysgrifenedig, mae ein ymchwiliadau yn aml yn cael deunydd sain a gweledol hefyd. Er enghraifft, gallai hyn fod yn fideos corff-wisgedig yr heddlu. Mae hyn yn debygol o fod o natur sy’n peri gofid, a byddwn yn trafod y cynnwys gyda chi cyn ei rannu gyda chi.

Efallai nad ydych chi eisiau derbyn y dogfennau llawn nac adolygu deunydd sain neu weledol. Os felly, gallwn roi crynodeb i chi o'r wybodaeth yn y ddogfen. Byddwn yn trafod hyn gyda chi ar ddechrau'r ymchwiliad i ddeall y lefel o gyfranogiad rydych chi am ei gael, a gallwch newid eich meddwl am eich lefel o gyfranogiad yn ystod yr ymchwiliad.

# Diwedd yr ymchwiliad

Byddwn yn rhannu ein adroddiad terfynol drafft gyda chi ar ddiwedd yr ymchwiliad os hoffech ei weld . Mae'r adroddiad terfynol yn crynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad ac yn darparu dadansoddiad o'r dystiolaeth yn erbyn deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau perthnasol, a chanllawiau sydd ar waith. Pan fyddwn yn rhannu’r adroddiad terfynol drafft gyda chi, byddwn yn cytuno ar gyfnod o amser i chi adolygu’r adroddiad terfynol drafft a darparu sylwadau, os hoffech chi wneud hynny.  Cynrychiolaeth yw lle gallwch chi ddweud wrth IOPC yn ysgrifenedig os ydych chi'n credu bod unrhyw beth yn anghywir, yn anghyflawn, yn gamarweiniol, neu'n annheg yn yr adroddiad drafft, cyn i'r canfyddiadau gael eu cwblhau.

Er enghraifft, efallai hoffech wneud sylwadau os ydych chi'n credu y gellid dilyn llinellau ymholi pellach i fynd i'r afael â chylch gorchwyl yr ymchwiliad, neu os yw'n berthnasol, gofyn i ni ystyried eich barn ar unrhyw argymhellion dysgu a gynigir yn yr adroddiad terfynol drafft. Yna byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau ac yn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach. Byddwn yn egluro'r rhesymeg dros unrhyw gamau a gymerwyd, neu na gymerwyd, ar ôl derbyn ac ystyried eich sylwadau.

Pan fyddwn yn gwneud gwaith pellach yn dilyn eich adborth, byddwn yn paratoi fersiwn terfynol o'r adroddiad i'w anfon at y penderfynydd, a fydd wedyn yn gwneud eu penderfyniadau dros dro am y canlyniadau.

Byddwn yn rhannu dogfen barn penderfynwyr (DMO) IOPCs gyda chi os hoffech ei weld. Mae’r ddogfen DMO yn nodi barn arfaethedig y penderfynydd ar y canlyniadau. Mewn ymchwiliadau i faterion ymddygiad, lle bu arwydd bod person sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu o bosib wedi cyflawni trosedd neu wedi ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau dwyn achos disgyblu, bydd y penderfynydd yn nodi ei benderfyniadau ar faterion ymddygiad ar gyfer swyddogion unigol, gan benderfynu a oes gan yr unigolyn, yn ei farn ef / hi, achos i'w ateb am gamymddwyn ac ar ba lefel. Bydd y DMO yn egluro'r penderfyniadau rydym yn bwriadu eu gwneud ar ddiwedd yr ymchwiliad a sut rydym wedi cyrraedd ein penderfyniadau dros dro.

# Atgyfeiriadau at Wasanaeth Erlyn y Goron

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cyhuddo pobl dan amheuaeth mewn ymchwiliadau troseddol.

Mewn ymchwiliadau lle gwnaethom ymchwilio i drosedd(au) troseddol, byddwn yn rhannu ein penderfyniad ynghylch a ddylid cyfeirio'r mater at y CPS gyda chi. Bydd hyn yn actifadu eich hawl i ofyn am adolygiad o dan ein cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) ac fe gewch wybodaeth am hyn ar y pryd, os yw'n berthnasol i'ch achos.

Pan fyddwn yn penderfynu peidio ag ymchwilio i ddigwyddiad fel mater troseddol, gallwn rannu'r rheswm dros y penderfyniad hwnnw gyda chi, yn amodol ar y prawf niwed (fel y nodir uchod), a chynnig cyfle i chi wneud sylwadau ar hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ymgysylltiad estynedig, mae croeso i chi gysylltu â'r Prif Ymchwilydd a sy’n gyfrifol am yr ymchwiliad.

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2026

© IOPC 2026

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am y ddogfen hon mewn fformat amgen, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk/cy**
Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg, ni fydd oedi mewn ymateb.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE